

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn falch o gael ei chydabod fel ysgol Presenoldeb Cynhwysol. Mae ein hymrwymiad cadarn i bresenoldeb yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a dealltwriaeth gyffredin o rolau a chyfrifoldebau cyfunol pawb wrth hyrwyddo presenoldeb rhagorol.

Yn Ysgol Dyffryn Conwy, rydym wedi ymrwymo'n gadarn i wneud presenoldeb yn yr ysgol yn flaenoriaeth allweddol sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn â phob agwedd ar wella'r ysgol. Drwy ddefnyddio'r Model Presenoldeb Cynhwysol - y rhaglen achrededig gyntaf a'r unig raglen sy'n darparu pedagogaeth ymarfer - rydym yn cefnogi plant a theuluoedd i gysylltu, perthyn a ffynnu.

Model Datblygu Proffesiynol Presenoldeb Cynhwysol

Mae model datblygu proffesiynol Presenoldeb Cynhwysol yn llywio ein dull o ymdrin â phresenoldeb. Gan gynnwys chwe Modiwl Dysgu pwmpasol, mae'r model hwn yn ein galluogi i ddyfnhau ein dealltwriaeth drwy hwyluso dysgu proffesiynol parhaus i'r holl staff. O fewn y model hwn, mae'r pedwar parth ymarfer yn sicrhau bod dysgu proffesiynol, ymarfer proffesiynol, arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth ragorol yn cysylltu theori ac ymarfer yn effeithiol.



Rhaglen Weithredu Presenoldeb Cynhwysol

Bob blwyddyn, mae Ysgol Dyffryn Conwy'n adolygu ac yn gwella arferion presenoldeb ymhellach drwy gymryd rhan ymroddedig yn rhaglen weithredu saith mis Presenoldeb Cynhwysol. Mae'r buddsoddiad hwn yn ein galluogi i aros ar flaen y gad o ran newid addysgol ac i estyn cymorth o ansawdd uchel i'n plant a'u teuluoedd, gan eu helpu i gael mynediad at y cymorth gorau posibl.

Effaith a Chydweithio


Drwy ein rhaglen weithredu barhaus dros flwyddyn, a'n strategaeth hirdymor bum mlynedd, rydym yn sicrhau effaith fesuradwy drwy greu diwylliant presenoldeb cynhwysol a gwella canlyniadau i bob plentyn a phob person ifanc. Rydym yn edrych tuag allan yn ein dull ac yn gwerthfawrogi gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol, drwy fodel sy'n cael ei arwain gan systemau, gydag ysgolion eraill ac asiantaethau allanol. Rydym yn cryfhau ac yn gwella ein cynnig o flwyddyn i flwyddyn. Caiff y gwaith hwn ei ategu gan Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) achrededig i staff bob blwyddyn, gan sicrhau newid cynaliadwy, canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, a diwylliant cyfrifoldeb cyfunol sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn.

System Cymorth Aml-haen

Er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr o ymdrin â phresenoldeb, rydym yn gweithredu System Cymorth Aml-haen. Mae System Cymorth Aml-haen (MTSS) ar gyfer presenoldeb ysgol yn cynnwys tair haen o ymyrraeth, gyda rolau clir i athrawon, yr ysgol, plant, rhieni ac asiantaethau allanol. Mae gwneud penderfyniadau ar sail data a nodi gofynion hyfforddiant yn allweddol i weithredu'r system yn effeithiol.

Dull sy'n Seiliedig ar Gydnabyddiaeth

Mae ein hathroniaeth presenoldeb wedi'i gwreiddio mewn dull sy'n seiliedig ar gydnabyddiaeth, sy'n cydnabod cyflawniadau personol a chyflawniadau cyfunol. Mae'r dull hwn yn helpu i leihau unigrwydd, atal bwllo, meithrin amgylcheddau cadarnhaol, cryfhau perthnasoedd, hyrwyddo cynhwysiant ac, yn y pen draw, feithrin cymhelliant cynhenid ymhlith ein plant, ein teuluoedd a'n staff. Ychwanegwch ragor o wybodaeth am eich system gydnabod bwrpasol.



Pwysigrwydd Presenoldeb yn yr Ysgol

Nid gofyniad yn unig yw presenoldeb yn yr ysgol; mae'n un o bileri sylfaenol addysg. Mae'n chwarae rhan ganolog wrth lunio llwyddiant academaidd, twf personol a rhagolygon ar gyfer y dyfodol, sy'n ei wneud yn agwedd hanfodol ar unrhyw system addysgol. Dewiswch y ffactorau pwysig isod a thynnwch unrhyw rai nad ydynt yn berthnasol.

Llwyddiant academaidd

Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â llwyddiant academaidd. Mae plant sy'n mynychu'n gyson yn fwy tebygol o gadw i fyny â'r cwricwlwm, gwneud yn well mewn arholiadau, a gwella eu canlyniadau bywyd.

Caffael gwybodaeth

Yr ysgol yw'r man lle mae plant yn caffael gwybodaeth a sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer eu twf personol a phroffesiynol. Mae colli diwrnodau ysgol yn golygu colli cyfleoedd dysgu gwerthfawr.

Datblygiad cymdeithasol

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cymdeithasol hanfodol lle gall plant a phobl ifanc ryngweithio â'u cyfoedion, meithrin cyfeillgarwch a dysgu sgiliau cymdeithasol hanfodol. Mae mynychu'n gyson yn sicrhau bod plant yn parhau i fod yn gysylltiedig â'u grŵp cyfoedion.

Sefydlu Trefn

Mae mynychu'r ysgol yn sefydlu trefn sdrwythuredig ym mywydau plant, gan eu dysgu am reoli amser a chyfrifoldeb, sy'n sgiliau bywyd gwerthfawr.

Rhyngweithio ag athrawon

Mae mynychu'n rheolaidd yn galluogi rhyngweithio ystyrlon rhwng athrawon a phlant. Gall athrawon ddarparu cymorth personol, ateb cwestiynau ac asesu cynnydd unigol yn fwy effeithiol pan fydd plant yn mynychu'n rheolaidd.

Atal bylchau mewn gwybodaeth

Gall absenoldeb mynych arwain at fylchau sylweddol mewn gwybodaeth, gan ei gwneud yn heriol i blant ddal i fyny â gwersi a gollwyd, a all arwain at anawsterau academaidd hirdymor.

Ymgysylltu â'r ysgol

Mae plant sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn fwy tebygol o ymgysylltu â gweithgareddau allgyrsiol, chwaraeon a phrofiadau cyfoethogi eraill sy'n cyfrannu at eu datblygiad cyffredinol.

Cyfrifoldeb cyfreithiol rhieni

Mae rhieni neu warcheidwaid yn gyfrifol yn gyfreithiol am sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gall methu â gwneud hynny arwain at ganlyniadau cyfreithiol.

Lles cymunedol

Mae lefelau uchel o bresenoldeb yn yr ysgol yn cyfrannu at les cyffredinol cymunedau.

